



Taliad

Annibyniaeth

Personal (TAP)



Os ydych yn gofalu am rywun sydd ag anabledd neu salwch a'u bod yn 16 oed, ac o dan oedran pensiwn y wladwriaeth, efallai y gallent hawlio Taliad Annibyniaeth Personol (TAP).

Mae'r wybodaeth hon yn gymwys i bobl sy'n byw yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Cynnwys

Beth yw TAP?	3
Pwy sy'n gallu hawlio TAP?	4
Pryd gallwch hawlio TAP?	5
Beth yw gwerth TAP a sut mae'n cael ei asesu?	6
Sut i hawlio TAP	13
Os oes gennych salwch angheuol	16
Beth sy'n digwydd os ydych yn derbyn LBA yn barod?	18
Y penderfyniad	18
Herio penderfyniad	19
Beth i'w wneud os yw eich amgylchiadau'n newid	20
Help arall y gallech fod yn gymwys ar ei gyfer	21
Preswyliaeth a phresenoldeb	25
Cymorth ychwanegol	26

Beth yw TAP?

Mae TAP yn fudd-dal a delir i bobl sydd ag anghenion byw bob dydd a/neu symudedd, i helpu gyda'r costau ychwanegol o salwch neu anabledd hirdymor.

Mae PIP wedi disodli DLA (Lwfans Byw i'r Anabl) yn bennaf ar gyfer pobl sy'n 16 oed neu'n hŷn – ond o dan oedran pensiwn y wladwriaeth.

Gellir talu TAP faint bynnag yw eich incwm, cynilion neu gofnod cyfraniadau Yswiriant Gwladol, ac mae'n fudd-dal di-dreth. Gallwch dderbyn TAP hyd yn oed os ydych yn gweithio neu astudio. Os ydych yn ofalwr sydd ag anghenion gofal, gallwch hawlio TAP ar eich cyferchi eich hunan, ac ni fydd yn effeithio ar eich Lwfans Gofalwr.

Nid yw derbyn TAP yn lleihau budd-daliadau eraill, gallai hyd yn oed eu cynyddu. Os oes gennych ofalwr yna efallai byddai hawlio TAP yn ei helpu i fod yn gymwys ar gyfer budd-daliadau penodol (fel Lwfans Gofalwr). Mae'n bosibl y bydd PIP hefyd yn rhoi'r hawl i chi /neu eich gofalwr gael cymorth pellach gyda'r Dreth Gyngor a Budd-dal Tai.

Ni cheir unrhyw gyfyngiadau ynghylch sut y gallwch wario eich TAP, ac nid oes rhaid i chi ei wario i dalu am y gofal sydd ei angen arnoch. Fodd bynnag, gall eich cyngor neu ymddiriedolaeth ystyried TAP pan fyddant yn cyfrifo faint y byddai ei angen arnoch i dalu am unrhyw wasanaethau gofal rydych yn eu derbyn.

Nodyn ar gyfer yr Alban: Mae Taliad Anabledd Oedolion (ADP) yn disodli PIP yn yr Alban. Dechreuodd y broses gyflwyno ym mis Mawrth 2022 - gweler y ddolen isod i ddarganfod pryd y bydd yn lansio lle rydych chi'n byw. Mae'r meini prawf cymhwyso ar gyfer ADP yn debyg i PIP, ond bydd rhai newidiadau yn y ffordd y caiff ei gyflwyno. Os ydych yn derbyn PIP neu DLA ar hyn o bryd, nid oes yn rhaid i chi wneud cais - bydd Nawdd Cymdeithasol yr Alban yn cysylltu â chi'n uniongyrchol. I gael rhagor o wybodaeth gweler: www.mygov.scot/adult-disability-payment-launch

Pwy sy'n gallu hawlio TAP?

I fod yn gymwys i dderbyn TAP, mae'n rhaid i chi gwrdd â'r holl feini prawf canlynol:

- Bod yn 16 oed ac o dan oedran pensiwn y wladwriaeth (neu os ydych yn cael eich ailasesu, roeddech o dan 65 oed ar 8 Ebrill 2013 yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban neu o dan 65 oed ar 20 Mehefin 2016 yng Ngogledd Iwerddon).
- Bodloni'r prawf gweithgareddau byw bob dydd a/neu symudedd (tudalennau 7-12)
- Bod wedi bodloni'r profion am o leiaf dri mis ac yn debygol o barhau i fodloni'r profion am o leiaf naw mis ar ôl y cyfnod cymhwyso o dri mis. Gallwch wneud eich cais cyn bod y tri mis yn dod i ben, ond ni fyddwch yn derbyn unrhyw daliad cyn hynny.
- Nad oes gennych unrhyw amodau mewnfudo'n gysylltiedig â'ch cyfnod yny DU yn amodol ar rai eithriadau. Os oes gennych gyfyngiadau mewnfudo ar eich cyfnod yn y DU, gall hawlio budd-daliadau effeithio ar eich hawl yn y dyfodol i aros yn y DU, felly gofynnwch am gyngor mewnfudo arbenigol cyn gwneud cais - gallwch chwilio am arbenigwyr mewnfudoar find-legal-advice.justice.gov.uk neu lawsoc-ni.org/solicitors yng Ngogledd Iwerddon.
- Cwrdd â'r amodau preswyliaeth a phresenoldeb (ewch i dudalen 25).

▶▶ **Noder:** Byddwch yn gallu aros ar TAP os gwnaethoch ei hawlio neu ei dderbyn cyn i chi gyrraedd oedran pensiwn yn amodol ar unrhyw adolygiad.

▶▶ **Noder:** Os oes gennych salwch angheuol, ceir rheolau symlach sy'nei gwneud yn haws gwneud cais - gweler tudalen 16 i gael manylion.

Pryd gallwch hawlio TAP?

Os ydych chi rhwng 16 ac o dan oedran pensiwn y wladwriaeth a dim yn cael LBA yn barod, gallwch hawlio TAP nawr.

Os ydych yn 16 oed neu'n hŷn ac roeddech o dan 65 ar Ebrill 8fed 2013 (yng Nghymru, Lloegr a'r Alban) neu os oeddech o dan 65 ar 20 Mehefin 2016 (yng Ngogledd Iwerddon) ac yn barod yn derbyn LBA, yna ar ryw bwynt, byddwch yn cael eich ail-asesu i dderbyn TAP gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) (Adran Cymunedau yng Ngogledd Iwerddon). Bydd hyn yn digwydd pan fydd un o'r amodau canlynol yn gymwys:

- pan fyddwch yn 16 oed (oni bai eich bod yn blentyn ac rydych wedi eich dyfarnu i dderbyn LBA o dan y rheolau arbennig ar gyfer salwch angheuol)
- ceir newid yr adroddir amdano yn eich anghenion gofal neu symudedd
- bod gennych ddyfarniad penodedig LBA ar fin dod i ben
- eich bod wedi dewis hawlio TAP yn lle eich LBA.

▶▶ **Noder:** Nid oes angen i hawlwr LBA gymryd unrhyw gamau o ran eu hail-asesiad TAP tan y dywedir wrthynt i wneud hynny gan y DWP (DfC yng Ngogledd Iwerddon).

Beth yw gwerth TAP?

Ceir dwy elfen o TAP:

- elfen byw bob dydd
- elfen symudedd Gellir talu pob elfen naill fel:
 - **cyfradd safonol** – lle mae eich gallu i gyflawni gweithgareddau bywbobdydd/symudedd wedi ei gyfyngu gan eich cyflwr corfforol neu feddyliol
 - **cyfradd uwch** – lle mae eich gallu i gyflawni gweithgareddau bywbobdydd/symudedd wedi ei gyfyngu'n ddifrifol gan eich cyflwr corfforol neu feddyliol

	Safonol	Uwch
Elfen byw bob dydd	£68.10	£101.75
Elfen symudedd	£26.90	£71.00

Sut mae TAP yn cael ei asesu?

Er mwyn bod yn gymwys i dderbyn TAP, bydd rhaid i chi sgorio nifer penodol o bwyntiau mewn perthynas â 12 gweithgaredd. Mae deg o'r gweithgareddau hyn yn asesu byw bob dydd, ac mae dau o'r gweithgareddau hyn yn asesu symudedd.

O fewn pob gweithgaredd, ceir cyfres o 'ddisgrifwyr' neu brofion. Ceir amrywiaeth o bwyntiau y gellir eu sgorio yn seiliedig ar a ydych yn cwrdd â disgrifiwr o fewn y gweithgareddau hyn. Gallwch sgorio pwyntiau am fwy nag un gweithgaredd ond os oes mwy nag un disgrifiwr yn berthnasol mewn unrhyw un gweithgaredd, dyfarnir pa ddisgrifiwr bynnag sy'n rhoi'r nifer mwyaf o bwyntiau i chi.

Dyfarnir pwyntiau i chi os yw'r disgrifiwr yn berthnasol i chi drwy'r amser, neu os gallwch ddangos bod disgrifiwr yn berthnasol i chi am fwy na hannery diwrnodau o fewn cyfnod o 12 mis.

Er mwyn i ddisgrifiwr fod yn berthnasol i chi, mae'n rhaid eich bod yn gallu cyflawni'r gweithgaredd yn "ddibynadwy", sy'n golygu:

- yn ddiogel – mewn modd nad yw'n debygol o achosi niwed i chi eich hun neu i unigolyn arall
- i safon dderbyniol
- yn gyson - mor aml ag y mae angen yn rhesymol i'r gweithgaredd a asesir gael ei gwblhau
- mewn cyfnod o amser rhesymol - dim mwy na dwywaith cyhyd â'r cyfnoduchafswm y byddai unigolyn nad yw'n anabl fel arfer yn ei gymryd i gwblhau'r gweithgaredd hwnnw

Os na allwch gyflawni'r gweithgaredd yn y modd uchod, ni fydd y disgrifiwr hwn yn berthnasol i chi, a dylech symud ymlaen i'r disgrifiwr nesaf i weld a yw hynny'n gweddu'n well i'ch sefyllfa.

I gael eich dyfarnu i dderbyn cyfradd safonol yr elfen byw bob dydd, mae'n rhaid i chi sgorio o leiaf wyth pwynt o'r deg gweithgaredd sy'n asesu byw bob dydd (gweithgareddau 1-10). I gael eich dyfarnu i dderbyn cyfradd uwch yr elfen byw bob dydd, mae'n rhaid i chi sgorio o leiaf 12 pwynt o'r deg gweithgaredd sy'n asesu byw bob dydd (gweithgareddau 1-10).

I gael eich dyfarnu i dderbyn cyfradd safonol yr elfen symudedd, mae'n rhaid i chi sgorio o leiaf wyth pwynt o'r ddau weithgaredd sy'n asesu symudedd (gweithgareddau 11-12). I gael eich dyfarnu i dderbyn cyfradd safonol yr elfen symudedd, mae'n rhaid i chi sgorio o leiaf 12 pwynt o'r ddau weithgaredd sy'n asesu symudedd (gweithgareddau 11-12).

Meini prawf asesu

Isod ceir y 12 gweithgaredd, a'r amrywiaeth o ddisgrifwyr o fewn pob gweithgaredd.

Gweithgareddau Byw Bob Dydd

Gweithgaredd 1 – Paratoi bwyd.

Nid yw'r gweithgaredd hwn yn brawf o'ch sgiliau coginio ond yn hytrach mae'n ystyried yr effaith sydd gan eich cyflwr iechyd ar eich gallu i gyflawni'r tasgau angenrheidiol i goginio pryd o fwyd syml. Mae'n asesu eich gallu i agor pecynnau, gweini bwyd, pilio a thorri bwyd, a defnyddio micro-don neu hob ffwrn i goginio neu dwymo bwyd. Pryd o fwydsyml yw pryd o fwyd un cwrs i un gan ddefnyddio cynnyrch ffres.

A	Gallu paratoi a choginio pryd o fwyd syml heb help.	0
B	Angen defnyddio cynhorthwy neu offer i fod yn gallu naill ai baratoi neu goginio pryd o fwyd syml.	2
C	Nid yw'n gallu coginio pryd o fwyd syml gan ddefnyddio ffwrn gonfensiynol ond mae'n gallu gwneud wrth ddefnyddio micro-don. (Er enghraifft, gallai hyn fod yn berthnasol os nad ydych yn gallu defnyddio hob ffwrn a sosbenni poeth yn ddiogel.)	2
D	Angen anogaeth i allu naill ai baratoi neu goginio pryd o fwyd syml.	2
E	Angen goruchwyliaeth neu gymorth i naill ai baratoi neu goginio pryd o fwyd syml.	4
F	Methu paratoi a choginio bwyd.	8

Gweithgaredd 2 – Cael maeth. Mae'r gweithgaredd hwn yn ystyried eich gallu i gael maeth, naill ai drwy dorri bwyd yn ddarnau, i'w roi yn y geg, cnoi a'i lyncu; neu drwy ddefnyddio ffynonellau therapiwtig. (Mae ffynhonnell therapiwtig yn golygu bwydo trwy diwb parenterol neu enterig gan ddefnyddio dyfais gyfyngu gyfradd fel system ddisbarthu neu fwydo trwy bwmp.)

A	Gallu cymryd maeth heb gymorth.	0
B	Anghenion: <ul style="list-style-type: none">• Defnyddio cynhorthwy neu offer i allu cymryd maeth; neu• Oruchwyliaeth i allu cymryd maeth; neu• Gymorth i allu torri bwyd.	2
C	Angen ffynhonnell therapiwtig i allu cymryd maeth.	2
D	Angen anogaeth i allu cymryd maeth.	4
E	Angen gymorth i allu rheoli ffynhonnell therapiwtig i gymryd maeth.	6
F	Methu rhoi bwyd a diod yn eu ceg ac angen rhywun arall arnynt i wneud hynny.	10

Gweithgaredd 3 – Rheoli therapi neu fonitro cyflwr iechyd.

Mae'r gweithgaredd hwn yn ystyried eich gallu i gymryd meddyginiaethau'n briodol mewn lleoliad domestig sy'n cael eu rhagnodi neu eu hargymell gan feddyg, nyrs neu fferyllydd cofrestredig; monitro a chanfod newidiadau yn eich cyflwr iechyd; a rheoli gweithgareddau therapiwtig sy'n cael eu cynnal mewn lleoliad domestig sy'n caeleu rhagnodi neu eu hargymell gan feddyg, nyrs neu fferyllydd cofrestredig neu weithiwr gofal iechyd proffesiynol a reoleiddir gan y Cyngor Proffesiynau Iechyd. Sylwer: nid yw 'rheoli therapi' yn cynnwys cymryd neu gymhwyso, neu fel arall dderbyn neu weinyddu, meddyginiaeth, neu fonitro cyflwr iechyd – dim ond uchafswm o 1 pwynt y gall y gweithgareddau hyn eu sgorio o dan ddisgrifiwr B.

A	Naill ai: <ul style="list-style-type: none">• Nid yw'n derbyn meddyginiaeth neu therapi neu angen monitrocyflwr iechyd; neu• Yn gallu rheoli meddyginiaeth neu therapi neu fonitro cyflwr iechyd heb gymorth.	0
B	Angen naill ai: <ul style="list-style-type: none">• Defnyddio cynhorthwy neu offer i allu rheoli meddyginiaeth; neu• Oruchwyliaeth, anogaeth neu gymorth i reoli meddyginiaeth neufonitro meddyginiaeth.• Oruchwyliaeth, anogaeth neu gymorth i reoli meddyginiaeth neufonitro cyflwr iechyd.	1
C	Angen goruchwyliaeth, anogaeth neu gymorth i allu rheoli therapi nad yw'n cymryd mwy na 3.5 awr yr wythnos.	2
D	Angen goruchwyliaeth, anogaeth neu gymorth i allu rheoli therapi sy'n cymryd mwy na 3.5 awr ond heb fod yn fwy na 7 awr yr wythnos.	4
E	Angen goruchwyliaeth, anogaeth neu gymorth i allu rheoli therapi sy'n cymryd mwy na 7 awr ond heb fod yn fwy na 14 awr yr wythnos.	6
F	Angen goruchwyliaeth, anogaeth neu gymorth i allu rheoli therapi sy'n cymryd mwy na 14 awr yr wythnos.	8

Gweithgaredd 4 – Ymolchi ac ymdrochi. Mae 'ymolchi' yn golygu glanhau eich corff cyfan, gan gynnwys cael gwared â baw a chwys. Mae 'ymdrochi' yn golygu mynd i mewn ac allan o naill ai fath neu gawod gyffredin.

A	Gallu ymolchi ac ymdrochi heb gymorth.	0
B	Angen defnyddio cynhorthwy neu offer i allu ymolchi neu ymdrochi.	2
C	Angen goruchwyliaeth neu anogaeth i allu ymolchi neu ymdrochi.	2
D	Angen cymorth i allu golchi naill ai eu gwallt neu eu corff islaw'r wast.	2
E	Angen cymorth i fynd i mewn neu allan o fath neu gawod.	3
F	Angen cymorth i olchi eu corff rhwng eu hysgwyddau a'u gwasg.	4
G	Dim yn gallu ymolchi neu ymdrochi o gwbl ac mae angen rhywun arall arnynti olchi eu corff cyfan.	8

Gweithgaredd 5 – Rheoli anghenion tŷ bach neu anymataliaeth. Mae anghenion tŷ bach yn golygu'r gallu i eistedd ar y tŷ bach a chodi oddi arno, ysgarthu'r bledren a'r coluddyn, ac ymolchi ar ôl bod i'r tŷ bach. Mae rheoli anymataliaeth yn golygu'r gallu i reoli ysgarthu'r bledren a/neu'r coluddyn gan gynnwys defnyddio offer casglu ac ymolchi ar ôl bod i'r tŷ bach. Os ydych yn defnyddio cathetr a/neu offer casglu, ystyrir hyn fel anymataliaeth at ddibenion y gweithgaredd hwn.

A	Gallu rheoli anghenion tŷ bach neu anymataliaeth heb gymorth.	0
B	Angen defnyddio cynhorthwy neu offer i allu rheoli anghenion tŷ bach neu anymataliaeth.	2
C	Angen goruchwyliaeth neu anogaeth i allu rheoli anghenion tŷ bach.	2
D	Angen cymorth i allu rheoli anghenion tŷ bach.	4
E	Angen cymorth i allu rheoli anymataliaeth o naill ai'r bledren neu'r coluddyn.	6
F	Angen cymorth i allu rheoli anymataliaeth o'r bledren yn ogystal â'r coluddyn.	8

Gweithgaredd 6 - Gwisgo a Dadwisgo. Mae'r gweithgaredd hwn yn ystyried eich gallu i wisgo a dadwisgo dillad sy'n briodol o ran diwylliant, heb eu haddasu sy'n addas i'r sefyllfa.

A	Gallu gwisgo a dadwisgo heb gymorth	0
B	Angen defnyddio cynhorthwy neu offer i allu gwisgo neu ddadwisgo. (Er enghraifft, gallai cynorthwyon gynnwys botymau, sipiau wedi eu haddasu, bras wedi eu cau yn y blaen, ffasninau felcro a chynorthwyon esgidiau).	2
C	Angen naill ai: <ul style="list-style-type: none"> • Anogaeth i allu gwisgo, dadwisgo neu benderfynu aramgylchiadau priodol i aros wedi gwisgo; neu • Anogaeth neu gymorth i ddewis dillad priodol. 	2
D	Angen cymorth i allu gwisgo neu ddadwisgo rhan isaf eu corff.	2
E	Angen cymorth i allu gwisgo neu ddadwisgo rhan uchaf eu corff.	4
F	Methu gwisgo neu ddadwisgo o gwbl.	8

Gweithgaredd 7 - Cyfathrebu ar lafar.

Mae gwybodaeth sylfaenol ar lafar yn wybodaeth a gyflëir mewn brawddegau syml. Mae gwybodaeth gymhlethar lafar yn wybodaeth a gyflëir naill ai mewn mwy nag un frawddeg neu un frawddeg gymhleth.

A	Gallu mynegi a deall gwybodaeth ar lafar heb gymorth.	0
B	Angen defnyddio cynhorthwy neu offer i allu siarad neu glywed.	2
C	Angen cefnogaeth cyfathrebu i allu mynegi neu ddeall gwybodaeth gymhleth ar lafar.	4
D	Angen cefnogaeth cyfathrebu i allu mynegi neu ddeall gwybodaeth sylfaenol ar lafar.	8
E	Methu mynegi neu ddeall gwybodaeth ar lafar o gwbl hyd yn oed gyda chefnogaeth cyfathrebu.	12

Gweithgaredd 8 – Darllen a deall arwyddion, symbolau a geiriau.

Gwybodaeth sylfaenol yw arwyddion, symbolau neu ddyddiadau. Gwybodaeth gymhleth yw mwy nag un frawddeg o destun ysgrifenedig neu faint safonol wediei argraffu - er enghraifft, testun a geir mewn biliau cyfleustodau a datganiadaubanc. At ddibenion y gweithgaredd hwn, ni ystyrir cael mynediad i wybodaeth trwy Braille fel darllen.

A	Gallu darllen a deall gwybodaeth ysgrifenedig sylfaenol a chymhleth naill ai heb gymorth neu gan ddefnyddio sbectol neu lensys cyffwrdd.	0
B	Angen defnyddio cynhorthwy neu offer, ar wahân i sbectol neu lensys cyffwrdd, i allu darllen neu ddeall naill ai wybodaeth ysgrifenedig sylfaenol neu gymhleth.	2
C	Angen anogaeth i allu darllen neu ddeall gwybodaeth ysgrifenediggymhleth.	2
D	Angen anogaeth i allu darllen neu ddeall gwybodaeth ysgrifenedigsylfaenol.	4
E	Dim yn gallu darllen neu ddeall arwyddion, symbolau neu eiriau o gwbl.	8

Gweithgaredd 9 – Ymgysylltu ag eraill wyneb yn wyneb. Wrth ystyried a ydych yn gallu ymgysylltu ag eraill, dylid ystyried a ydych yn gallu ymgysylltu â phobl yn gyffredinol, nid y bobl yn unig rydych yn eu hadnabod yn dda.

A	Gallu ymgysylltu â phobl eraill heb gymorth.	0
B	Angen anogaeth i allu ymgysylltu ag eraill.	2
C	Angen cefnogaeth gymdeithasol i allu ymgysylltu ag eraill.	4
D	Methu ymgysylltu ag eraill oherwydd bydd y fath ymgysylltiad naill ai'n achosi: <ul style="list-style-type: none">• gofid seicolegol aruthrol i'r ymgeisydd; neu• i'r hawlydd ymddwyn mewn modd a fyddai'n arwain at risgsylweddol o niwed i'r hawliwr neu unigolyn arall.	8

Gweithgaredd 10 – Gwneud penderfyniadau cyllido.

Penderfyniadau cyllidosympl yw'r rhai hynny sy'n gysylltiedig â gweithgareddau fel cyfrifo'r gost o nwyddau a'r newid y dylid ei dderbyn ar ôl prynu.

Penderfyniadau cyllido cymhleth yw'r rhai hynny sy'n ymwneud â chyfrifo cyllidebau'r cartref a rhai personol, rheoli a thalu biliau, a chynllunio'r hyn a brynir yn y dyfodol.

A	Gallu gwneud penderfyniadau cyllido cymhleth heb gymorth	0
B	Angen anogaeth neu gymorth i allu gwneud penderfyniadau cyllido cymhleth.	2
C	Angen anogaeth neu gymorth i allu gwneud penderfyniadau cyllido syml.	4
D	Methu gwneud unrhyw benderfyniadau cyllido o gwbl.	6

Gweithgareddau Symudedd

Gweithgaredd 11 - Cynllunio a chyflawni teithiau.

Mae'r gweithgaredd hwn yn ystyried y rhwystrau y gallech eu hwynebu sy'n gysylltiedig â gallu meddyliol, gwybyddol neu synhwyrdd. Gellir ystyried ffactorau amgylcheddol (fel methu ymdopi â thorffeydd neu synau uchel).

A	Gallu cynllunio a dilyn llwybr taith heb gymorth.	0
B	Angen anogaeth i allu cyflawni unrhyw daith i osgoi gofid seicolegol aruthrol i'r ymgeisydd.	4
C	Methu cynllunio llwybr taith.	8
D	Methu dilyn llwybr taith anghyfarwydd heb gwmni rhywun arall, ci cymorth, neu gynhorthwy cyfeiriad.	10
E	Methu cyflawni unrhyw daith oherwydd y byddai'n achosi pryderseicolegol aruthrol i'r hawliwr.	10
F	Methu dilyn llwybr taith gyfarwydd heb gwmni rhywun arall, ci cymorth neu gynhorthwy cyfeiriad.	12

Gweithgaredd 12 – Symudedd. Mae'r gweithgaredd hwn yn ystyried eich gallu corfforol i symud o gwmpas heb deimlo'n anghyfforddus iawn fel diffyg anadl, poen neu flinder.

A	Gallu sefyll ac yna symud am fwy na 200 metr, naill ai gyda chymorth neu heb gymorth.	0
B	Gallu sefyll ac yna symud am fwy na 50 metr ond dim pellach na 200 metr, naill ai gyda chymorth neu heb gymorth.	4
C	Gallu sefyll ac yna symud heb gymorth am fwy nag 20 metr ond dim mwy na 50 metr.	8
D	Gallu sefyll ac yna symud gan ddefnyddio cynhorthwy neu offer am fwy nag 20 metr ond dim pellach na 50 metr.	10
E	Gallu sefyll ac yna symud am fwy nag 1 metr ond dim mwy nag 20 metr, naill ai gyda chymorth neu heb gymorth.	12
F	Methu, naill ai gyda chymorth neu heb gymorth: <ul style="list-style-type: none"> • Sefyll; neu • Symud mwy nag 1 metr. 	12

Cynorthwyon ac offer

Gall cynorthwyon ac offer gynnwys y rhai hynny a ddefnyddir fel arfer a'r rhai hynny y gellir 'eu disgwyl yn rhesymol' i'w gwisgo neu eu defnyddio. Bydd 'eudisgwyl yn rhesymol' yn ystyried materion argaeledd, cost ac ystyriaethau diwylliannol.

Dyfeisiau yw cynorthwyon ac offer sy'n gwella, cyflenwi neu sy'n cael eu defnyddio yn lle eich gweithrediad corfforol neu feddyliol diffygiol, ac mae'n cynnwys prosthesis. Gallant gynnwys cynorthwyon nad ydynt yn arbenigol megis agorwr caniau trydan, neu frwsys dannedd trydan, cyn belled â bod eu hangen oherwydd yranabledd mewn cyferbyniad â chael eu defnyddio oherwydd mai dyma'r hynsydd yn well gennych.

Cymorth, anogaeth a goruchwyliaeth

Cymorth yw cefnogaeth sy'n gofyn am bresenoldeb ac ymyriad corfforol unigolyn arall, gan gynnwys gwneud peth ond nid yr holl weithgaredd o dan sylw.

Anogaeth yw cefnogaeth a roddir wrth eich atgoffa neu eich annog i wneud neu gwblhau tasg, ond heb eich helpu'n gorfforol.

Goruchwyliaeth yw'r angen am bresenoldeb parhaus unigolyn arall i atal digwyddiad anffafriol difrifol rhag digwydd i chi. Mae'n rhaid cael tystiolaethyddai unrhyw risg yn debygol o ddigwydd petai goruchwyliaeth o'r fath heb fod ar gael.

Amodau amrywiol a newidiol

Ystyrir amodau yn ystod y 'cyfnod gofynnol' (sy'n golygu edrych yn ôl i'r tri mis cyn eich dyddiad hawlio, ac edrych ymlaen at y naw mis ar ôl eich dyddiad hawlio). Dyfarnir pwyntiau os yw'r disgrifiwyrn berthnasol ar fwy na 50% o'r diwrnodau yn ystod y cyfnod 12 mis hwnnw. Heblaw hynny, lle byddwch yn bodloni disgrifiwyr gwahanol, y disgrifiwr sy'n berthnasol i chi fydd:

- lle bodlonir un disgrifiwr dros 50% o'r diwrnodau yn y cyfnod gofynnol, y disgrifiwr hwnnw.
- lle bodlonir dau neu fwy o ddisgrifiwyr dros 50% o'r diwrnodau yn y cyfnod gofynnol, y disgrifiwr sy'n sgorio'r nifer mwyaf o bwyntiau.
- lle nad oes unrhyw ddisgrifiwr yn bodloni 50% o'r diwrnodau yn y cyfnod gofynnol ond lle mae dau neu fwy o ddisgrifiwyr (ond am y rhai sy'n sgorio pwyntiau sero) wedi eu hychwanegu at ei gilydd yn gwneud, yna'r disgrifiwr a fodlonwyd am y gyfran fwyaf o ddiwrnodau.

Sut i hawlio TAP

Gwneud cais cychwynnol

Fel arfer bydd y cais cychwynnol yn cael ei wneud dros y ffôn. Mae ffurflenni hawlio papur ar gael hefyd (ffurflen PIP1) ond mae'r broses yn cymryd mwy o amser. Gallwch ddechrau drwy anfon llythyr at: Personal Independence New Claims, Post Handling Site B, Wolverhampton, WV99 1AH

Lloegr a'r Cymru

I gychwyn cais newydd am TAP, dylech ffonio'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) ar **0800 917 2222** (ffôn testun 0800 917 7777).

Gogledd Iwerddon

I gychwyn cais newydd am TAP, dylech ffonio'r Ganolfan TAP ar **0800 012 1573** (ffôn testun 0800 587 0937)

Gellir gwneud yr alwad ffôn gan rywun arall, ond bydd angen iddynt fod yn bresennol gyda chi. Mae'r alwad ffôn yn nodi dyddiad y cais.

Yr unig wybodaeth y bydd ei hangenarnoch argyfer yr alwad hon yw:

- eich enw llawn a dyddiad geni
- eich cyfeiriad a rhif ffôn
- eich rhif Yswiriant Gwladol
- eich manylion banc neu gymdeithas adeiladu
- manylion eich meddyg teulu neu weithiwr iechyd proffesiynol

- manylion unrhyw gyfnodau diweddar yn yr ysbyty, cartrefi gofal neu hosbisau
- manylion unrhyw gyfnod rydych wedi bod allan o'r wlad
- statws dinasyddiaeth neu fewnfudo
- os oes gennych salwch angheuol, bydd angen i chi drafod eich cyflwr yn ystod y cais cychwynol hwn.

Bydd y DWP (Canolfan TAP yng Ngogledd Iwerddon) yn gwirio wedyn os ydych yn bodloni'r amodau cymhwysedd sylfaenol. Os ydych yn bodloni'r rhain, bydd ffurflen â chod bar unigol yn cael ei hanfon atoch chi (Sut mae eich anabledd yn effeithio arnoch – ffurflen TAP2). Os nad ydych yn bodloni'r meini prawf, bydd llythyr gwahardd yn cael ei anfon atoch chi.

▶▶ **Noder:** Os oes gennych salwch angheuol, ni fydd rhaid i chi llenwi'r ffurflen

Sut mae eich anabledd yn effeithio arnoch – gweler tudalen 16 i gael gwybodaeth bellach.

Sut mae eich anabledd yn effeithio arnoch (TAP2)

Bydd y ffurflen hon yn cael ei hanfon atoch os ydych chi'n gymwys. Bydd yn gofyn am wybodaeth ynghylch sut mae eich cyflwr yn effeithio arnoch. Gellir anfon tystiolaeth ychwanegol gyda'r ffurflen hon. Ar y ffurflen, ceir adran ar gyfer 'gwybodaeth ychwanegol'. Yn yr adran hon, gallai gofalwyr, ffrindiau neu deulu roi gwybodaeth hefyd. Nid oes rhaid ei llenwi os ydych yn teimlo eich bod wedi cynnwys popeth yng ngweddill y ffurflen.

Mae gennych un mis i ddychwelyd y ffurflen *Sut mae eich anabledd yn effeithio arnoch* wedi ei chwblhau. Gall methu â dychwelyd y ffurflen heb reswm da arwain at yr hawliad yn cael ei derfynu. Os na allwch gwblhau'r ffurflen o fewn y terfynau amser a roddir, dylech gysylltu â'r DWP (Canolfan TAP yng Ngoled Iwerddon) drwy ffonio i ofyn am estyniad. Os na dderbyniwyd y ffurflen ac mae'r Adran DWP (Canolfan TAP yng Ngoled Iwerddon) wedi nodi bod angen cefnogaeth ychwanegol arnoch, efallai y cewch eich gwahodd i ymgynghoriad wyneb yn wyneb.

Cwblhau'r ffurflen hawlio

- Mae'r ffurflen yn un hir a chymhleth, felly cymerwch eich amser i'w chwblhau, a chofiwch nad oes angen i chi ei chwblhau i gyd ar unwaith
- Edrychwch ar y 12 gweithgaredd a meddyliwch pa brofion y byddech yn eubodloni cyn i chi lenwi'r ffurflen - efallai byddai'n syniad da gofyn i'ch gofalwrwneud yr un peth i sicrhau nad ydych yn anghofio am unrhyw beth
- Yr hyn sy'n bwysig yw a oes angen yr help arnoch, nid a ydych yn eiddorbyn yn barod.
- Os nad ydych yn siŵr faint o help sydd ei angen arnoch, neu faint morhir mae pethau'n eu cymryd i'w cyflawni, cadwch ddyddiadur am tua wythnos - byddai hyn yn arbennig o ddefnyddiol gydag amodau newidiol.
- Os ydych yn gwneud cais am y gweithgaredd 'symudedd' (gweithgaredd 12), mesurwch yn union pa mor bell y gallwch gerdded a pha mor hir mae'n cymryd i chi gerdded mor bell â hynny cyn i chi lenwi'r ffurflen.
- Mae tystiolaeth yn bwysig - mae'n syniad da casglu gwybodaeth a'i chyflwyno naill ai gyda'r pecyn hawlio neu gyn gynted â phosibl ar ôl cyflwyno'r hawliad - gallai tystiolaeth gynnwys adroddiad gan therapyddgalwedigaethol neu feddyg ymgynghorol, gwybodaeth gan eich meddygneu weithiwr cymorth, neu ddatganiad gan ofalwr/ffrind/aelod o'r teulu.
- Cadwch gopi o'ch ffurflen ac unrhyw dystiolaeth rydych yn ei hafnon.

▶▶ **Noder:** Gallech ofyn am help i gwblhau'r ffurflen hawlio gan asiantaeth cyngor leol- ewch i'r tudalen Help Ychwanegol i gael manylion cyswllt.

Asesiad

Anfonir y ffurflen ac unrhyw wybodaeth ychwanegol wedyn at weithiwr iechyd proffesiynol.

Os oes digon o wybodaeth, gellir cwblhau'r asesiad ar y cam hwn, ond byddgofyn i'r mwyafrif fynychu ymgynghoriad wyneb yn wyneb.

Mae'n bwysig mynychu'r apwyntiad (neu roi rheswm da os na allwch); fel arall, efallai na fydd eich hawliad yn gallu mynd rhagddo. Ar ôl yr ymgynghoriad, bydd y gweithiwr iechyd proffesiynol yna'n anfon adroddiad at yr unigolyn sy'n gwneud y penderfyniad.

▶▶ **Noder:** Os oes gennych salwch angheuol, ni fydd rhaid i chi fynychu ymgynghoriad wyneb yn wyneb - gweler isod i gael manylion pellach.

Os oes gennych salwch angheuol

Mae rheolau arbennig yn caniatáu i bobl sy'n angheuol sâl gael help yn gyflym. Fe'ch ystyrir fel bod yn angheuol sâl os oes gennych salwch sy'n gwaethygu ac sy'n debygol o gyfyngu eich disgwyliad oes i chwe mis neu lai. Mae'n amhosibl dweud yn union pa mor hir bydd rhywun yn byw, a bydd rhai pobl sy'n derbyn TAP o dan y rheolau hyn yn byw yn llawer hirach na chwe mis.

O dan y rheolau arbennig hyn, nid oes rhaid i chi fodloni'r cyfnod cymhwyso (hy eich bod wedi bod yn anabl neu wedi bod yn sâl am dri mis o leiaf ac yn debygol o fod yn anabl neu'n sâl am naw mis arall). Hefyd, nid oes rhaid eich bod wedi bod yn bresennol ym Mhrydain Fawr am y 104 o wythnosau allan o'r 156 diwethaf cyn gwneud cais - mae angen i chi fod yn bresennol ar adeggwneud y cais yn unig.

Os ydych yn hawlio TAP o dan y rheolau hyn, dylai eich cais gynnwys ffurflen DS1500 sydd ar gael gan eich meddyg teulu neu feddyg ymgynghorol. Byddwch chi (neu'r unigolyn sy'n gwneud y cais ar eich rhan) yn derbyn cyfeiriad rhadbost ar gyfer y ffurflen DS1500 pan fyddwch yn gwneud y cais dros y ffôn.

Ni fydd rhaid i chi gwblhau'r ffurflen *Sut mae eich anabledd yn effeithio arnoch*, ac ni fydd angen i chi fynychu ymgynghoriad wyneb yn wyneb. Yn lle hynny, gofynnir cwestiynau ychwanegol i chi neu i'r unigolyn sy'n hawlio ar eich rhan tra eich bod ar y ffôn am eich cyflwr, a sut mae'n effeithio ar eich gallu i symud o gwmpas.

Byddwch yn gymwys yn awtomatig ar gyfer y gyfradd uwch o'r elfen byw bob dydd, fodd bynnag, bydd derbyn yr elfen symudedd yn dibynnu ar a oes angen help arnoch i symud o gwmpas, ac os ydych, faint o help sydd ei angen arnoch.

Y ffordd i hawlio os oes gennych salwch angheuol yw drwy ffonio **0800 917 2222** (Cymru, Lloegr a'r Alban) neu **0800 012 1573** (Gogledd Iwerddon).

Gellir gwneud yr alwad ffôn gan rywun sy'n eich cefnogi heb fod angen i chi fod yn bresennol. Fodd bynnag, dylech gael eich hysbysu am y cais oherwydd efallai bydd angen i'r DWP (Canolfan TAP yng Ngogledd Iwerddon) gysylltu â chi i gadarnhau eich manylion a bydd y DWP (Canolfan TAP yng Ngogledd Iwerddon) ynanfon hysbysiadau ac unrhyw daliadau atoch.

Beth sy'n digwydd os ydych yn derbyn LBA yn barod?

Beth sy'n digwydd os yw oedolyn yn hawlio LBA?

Ar gyfer hawlwyd LBA cyfredol a drosglwyddir i TAP, mae'r broses yn debyg i'r broses a ddisgrifir uchod, heblaw am y ffaith y bydd yn cychwyn gyda chi'n derbyn llythyr yn nodi bod eich LBA ar fin dod i ben ac yn eich gwahodd i wneud cais am TAP. Nid oes opsiwn i chi barhau i hawlio LBA.

Os ydych yn trosglwyddo o hawlio LBA cyfredol i TAP, nid oes rhaid i chi gwrdd â chyfnod cymhwyso tri mis TAP. Bydd gennych 28 diwrnod i hawlio TAP - gwneir hyn fel arfer dros y ffôn (er bod ffurflenni hawlio papur hefyd ar gael). Dyma'r cais cychwynnol yn unig. Os nad ydych yn hawlio o fewn y 28 diwrnod, bydd eich LBA yn cael ei derfynu. Bydd llythyr yn cael ei ddweud y bydd y gwaharddiad yn cael ei godi os ydych yn hawlio o fewn y 28 diwrnod nesaf. Os na wneir unrhyw gais, terfynir cais y LBA. Yn yr amgylchiadau hyn, parheir i dalu LBA am 13 diwrnod pellach ar ôl eich diwrnod cyflog nesaf.

Os gwneir y cais, anfonir y ffurflen *Sut mae'r anabledd yn effeithio arnoch* atoch. Gall methu â dychwelyd y ffurflen arwain at y cais yn cael ei derfynu. Os na dderbyniwyd y ffurflen ac mae'r DWP (Canolfan TAP yng Ngogledd Iwerddon) wedi nodibod angen cefnogaeth ychwanegol arnoch, efallai y cewch eich gwahodd i ymgynghoriad.

Pan dderbynnir y ffurflen, mae aseswr annibynnol yn penderfynu a oes angen tystiolaeth bellach ac a oes angen ymgynghoriad. Bydd y rhan fwyaf o bobl yn mynychu ymgynghoriad ar gyfer y cais cyntaf. Os byddwch yn methu dod i'r ymgynghoriad heb reswm da, bydd y cais yn cael ei wrthod.

Yna, bydd penderfynwr yn gwneud penderfyniad am y cais. Unwaith y gwneir penderfyniad, parheir i dalu LBA am 28 diwrnod ar ôl eich diwrnod cyflog nesaf, tan y bydd y penderfyniad ynghylch TAP yn dod i rym.

Beth sy'n digwydd os yw unigolyn ifanc o dan 16 yn hawlio LBA?

Pan fydd unigolyn ifanc yn cyrraedd eu pen-blwydd yn 16 oed, bydd angen iddynt drosglwyddo i TAP (oni bai yr hawlir LBA o dan y rheolau arbennig ar gyfer salwch angheuol - ac yn yr achos hwn, byddant yn cael eu gwahodd i hawlio TAP ar ddiwedd eu dyfarniad LBA cyfredol). Bydd y DWP (Canolfan TAP yng Ngogledd Iwerddon) yn cysylltu â'r rhiant neu warcheidwad cyn pen-blwydd yr unigolyn ifanc yn 16, i'w gwneud yn ymwybodol o'r newid, a phenderfynu a oes angen penodai ar yr unigolyn ifanc. Bydd taliadau LBA y person ifanc yn parhau hyd nes y gwneir penderfyniad ar ei gais am TAP.

Y penderfyniad

Bydd y penderfynwr yn adolygu'r adroddiad gan y gweithiwr iechyd proffesiynol ac unrhyw dystiolaeth arall a gwneud penderfyniad.

Bydd y DWP (Canolfan TAP yng Ngogledd Iwerddon) yn anfon llythyr atoch sy'n rhoi penderfyniad ynghylch y cais am TAP, ac esboniad rhesymegol clir am sut y gwnaethpwyd y penderfyniad hwnnw.

Os dyfarnir TAP i chi, bydd y llythyr yn nodi swm y dyfarniad, hyd y dyfarniad a'r rhesymau dros wneud y penderfyniad hwnnw. Cynhwysir manylion penodol taliadau TAP, gan gynnwys y dyddiad y bydd y taliadau'n cychwyn, a pha moramly'u telir yn y llythyr.

Gellir rhoi dyfarniadau am gyfnod byrrach o hyd at ddwy flynedd, neu ddyfarniadau am gyfnod hirach o bum neu ddeng mlynedd. Rhoddir dyfarniadau parhaus yn y lleiafrif o achosion lle mae anghenion yn sefydlog a newidiadau'n annhebygol. Fodd bynnag, adolygir dyfarniad pob hawlydd yn rheolaidd, beth bynnag yw hyd y dyfarniad, i sicrhau bod pawb yn parhau i dderbyn y lefel fwyafbriodol o gefnogaeth.

Os na ddyfarnir TAP i chi, bydd y llythyr yn rhoi'r un wybodaeth â'r llythyr dyfarnu, a bydd yn cynnwys datganiad llawn o'r rhesymau dros y penderfyniad.

▶▶ **Nodyn:** Yng Ngogledd Iwerddon, efallai y gallwch gael cymorth os ydych yn teimlo eich bod yn waeth eich byd yn ariannol nawr, ar ôl symud o LBA i TAP. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Carers NI ([028 9043 9843](tel:02890439843) / advice@carersni.org) neu'r Llinell Gymorth Newidiadau Lles: [0808 802 0020](tel:08088020020).

Herio penderfyniad

Os gwrthodir eich cais am TAP neu dyfarnir cyfradd is na'r hyn roeddech yn ei ddisgwyl (gan gynnwys lle mae'r penderfyniad ar TAP yn dilyn trosglwyddo o LBA), gallwch ofyn i'r DWP (Cymru, Lloegr a'r Alban) neu'r Adran Cymunedau (DfC) (Gogledd Iwerddon) i ystyried y penderfyniad eto. Mae'n rhaid i chi wneud hyn cyn eich apêl. Gelwir hyn yn ailystyriaeth orfodol.

Os ydych yn dal i anghytuno unwaith iddynt wneud hyn, mae'n rhaid i chi gyflwyno apêl gyda'r Gwasanaeth Tribiwnlys (Cymru, Lloegr a'r Alban) neu'r Gwasanaeth Apeliadau (TAS) (Gogledd Iwerddon), ac atodi copi o'r hysbysiad ailystyriaeth gorfodol gyda'r apêl.

Mae'n bwysig herio penderfyniad neu dderbyn cyngor cyn gynted â phosibl, oherwydd ceir cyfyngiadau amser sy'n gyffredinol yn golygu bod rhaid i chi weithredu o fewn un mis. Os nad ydych yn gweithredu o fewn y terfyn amser hwn, mae posibilrwydd o hyd y gellir herio'r penderfyniad. I gael mwy o wybodaeth ynghylch apelio am benderfyniad budd-dal, ewch i

www.carersuk.org/appealsguide

Sut i wneud cwyn

Os nad ydych yn hapus gyda'r modd y deliwyd â'ch cais, ee oedi hir neu ffurflenni coll, dylech yn gyntaf gysylltu â llinell ymholiadau TAP ar **0800 121 4433** (Cymru, Lloegr a'r Alban) neu **0800 587 0932** (Gogledd Iwerddon).

Os ydych yn anhapus gyda'u hymateb, gofynnir i chi a ydych eisiau i'ch cwyn gael ei anfon at Reolwr Datrys Cwynion. Eu nod yw delio â chwynion o fewn 15 diwrnod gwaith.

Os ydych yn anhapus o hyd, gallwch wedyn ofyn i'r Archwiliwr Achos Annibynnol archwilio - byddant yn ddiuedd ac mae'r gwasanaeth am ddim.

Beth i'w wneud os bydd eich amgylchiadau'n newid

Gallai unrhyw newid yn eich anghenion byw bob dydd neu symudedd effeithio areich hawl i TAP neu'r swm rydych yn ei dderbyn. Dylech hysbysu'r DWP (DfC yng Ngogledd Iwerddon) am y newid cyn gynted ag y gallwch, fel y gallant adolygu eich dyfarniad TAP a sicrhau eich bod yn derbyn y gefnogaeth gywir.

Os ydych yn gofyn iddynt ystyried dyfarniad TAP eto, mae posibilrwydd bob amser y gallai'r dyfarniad gael ei leihau yn hytrach na'i gynyddu, felly mae bob amser yn syniad da cael help gan asiantaeth cyngor leol cyn i chi gysylltu â'r DWP (DfC yng Ngogledd Iwerddon). I gael mwy o wybodaeth am asiantaethau cyngor yn eich ardal, ewch i'r adran 'Help ychwanegol'.

Mynd i aros mewn ysbyty, cartref gofal neu hosbis

Dylech chi neu rywun sy'n gweithredu ar eich rhan hysbysu'r DWP (Asiantaeth Nawdd Cymdeithasol yng Ngogledd Iwerddon) hefyd os ydych wedi mynd i mewn i'r ysbyty, cartref gofal neu hosbis, neu wedi eich carcharu, gan y gall hyn hefyd effeithio ar eich budd-dal. Gallwch ddweud am newid mewn amgylchiad drwy gysylltu â llinell ymholiadau TAP ar **0800 121 4433** (Lloegr, Cymru a'r Alban) neu **0800 587 0932** (DfC yng Ngogledd Iwerddon).

Mynd i aros mewn ysbyty

Os ydych yn 18 oed neu'n hŷn pan ydych yn mynd i mewn i ysbyty, yna nid yw elfen byw bod dydd a symudedd TAP yn daladwy ar ôl 28 diwrnod yn yr ysbyty (gan gynnwys taliadau'r elfen symudedd o dan gontract Symudedd presennol). Os ydych o dan 18 oed pan ydych yn mynd i aros mewn ysbyty, gellir parhau i dalu eich TAP am y cyfnod cyfan rydych yn aros yno.

Mynd i aros mewn cartref gofal

Nid yw elfen byw bod dydd TAP yn daladwy ar ôl y 28 diwrnod cyntaf mewn cartref gofal, oni bai eich bod yn cyllido eich hun yn gyfan gwbl. Gellir parhau dalu elfen symudedd TAP.

Y rheol cysylltu

Ychwanegir unrhyw gyfnodau mewn cartref gofal gyda bwlch o 28 diwrnod neu lai rhyngddynt at ei gilydd pan gyfrifir pryd y dylai TAP ddod i ben.

Mynd i mewn i hosbis

Telir TAP yn gyffredinol o hyd os ydych yn angheuol sâl ac mewn hosbis.

Help arall y gallech fod yn gymwys ar ei gyfer

Budd-daliadau prawf modd a chredydau treth

Os ydych yn derbyn budd-daliadau prawf modd neu gredydau treth (fel Cymhorthdal Incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm, Lwfans Ceisio Gwaith seiliedig ar incwm, Credyd Pensiwn, Budd-dal Tai, Gostyngiad yn y Dreth Gyngor neu Gredydau Treth Gwaith), gall derbyn TAP olygu y byddwch yn gymwys i dderbyn cynnydd yn eich budd-daliadau neu gredydau treth.

Fodd bynnag, os ydych yn derbyn Credyd Cynhwysol, ni fydd derbyn TAP yn rhoi'r hawl i chi dderbyn unrhyw gynnydd mewn budd-dal.

Os ydych yn gyfrifol am blentyn neu unigolyn ifanc cymwys a dyfarnir TAP iddynt, gallai hyn olygu bod gennych hawl i gynnydd yn eich budd-daliadau prawf moddneu gredydau treth (fel Credyd Cynhwysol, Budd-dal Tai, Gostyngiad yn y Dreth Gyngor neu Gredydau Treth Plant).

Os ydych chi neu'ch partner yn derbyn budd-daliadau neu gredydau treth sy'n dibynnu ar brawf modd, rhowch wybod i bob un o'r swyddfeydd sy'n eu talu i chi eich bod chi neu eich plentyn cymwys nawr yn derbyn TAP.

Gall dyfarnu TAP i chi eich hun neu blentyn neu unigolyn ifanc cymwys hefyd olygu eich bod yn gymwys ar gyfer budd-daliadau neu gredydau treth yn dibynnu ar brawf modd am y tro cyntaf, felly byddai'n syniad da gofyn am wiriad budd-daliadau.

Efallai y dilëir unrhyw ddiidyniadau a wneir o fudd-daliadau prawf modd oherwydd bod oedolion eraill yn rhannu eich cartref os ydych yn derbyn TAP ar gyfer eich hun.

Os ydych yn derbyn Credyd Cynhwysol a bod y person rydych yn gofalu amdano yn cael PIP a'u bod yn byw gyda chi, mae'n bosibl y bydd unrhyw ddiwyddiad a wneir oherwydd ei fod yn rhannu eich cartref yn cael ei ddileu.

Cael gwiriad budd-daliadau

Gallwch ddysgu pa fudd-daliadau mae gennych hawl iddynt a faint y dylech ei dderbyn drwy gael gwiriad budd-dal (gweler y nodyn isod) neu ewch i'r adran 'Help ychwanegol' i gael manylion asiantaethau cyngor.

▶▶ **Noder:** Gallwch gael gwiriad budd-daliadau ar-lein wedi'i bersonoli, er enghraifft, yn: carersuk.org/benefits-calculator. Bydd yn cymryd tua 20 munud i'w gwblhau.

Nid yw'r offer ar-lein hyn yn addas i bawb. Mae rheolau arbennig yn gymwys i rai grwpiau o bobl, er enghraifft myfyrwyr, pobl o dan 18 oed, pobl mewn gofal preswyl parhaol, dinasyddion y DU sy'n byw dramor a phobl nad ydynt yn ddinasyddion Prydeinig neu Wyddelig.

Eithriad o'r cap ar fudd-dal

Bydd cartrefi'n cael eu heithrio o'r cap ar fudd-dal os ydych chi, eich partner neu blentyn neu berson ifanc cymwys, yn gymwys i gael TAP.

Help gyda chostau trafnidiaeth

Motability

Os dyfarnir cyfradd uwch elfen symudedd TAP i chi, yna efallai y gallwch wneud cais ar gyfer y cynllun Motability. Drwy'r cynllun hwn, gallwch ddefnyddio eich elfen symudedd i brydlesu neu brynu car, cadair olwyn neu sgwter. Os nad ydych yn gallu gyrru a bod angen help arnoch i dalu am wersi neu help i gael blaendal am gar drwy'r cynllun, yna efallai y byddwch yn gymwys i dderbyn grant. I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â Motability – [ewch i dudalen 25](#).

Cynllun y Bathodyn Glas heb asesiad pellach

Mae cynllun y Bathodyn Glas yn caniatáu i bobl sydd ag anableddau cerdded difrifol barcio mewn ardaloedd parcio cyfyngedig. Er enghraifft, os oes bathodyn gennych, gallwch barcio am ddim ac am unrhyw gyfnod o amser ar y stryd lle ceir meter parcio ac mewn ardaloedd talu ac arddangos ar y stryd.

Eithriad o'r cap ar fudd-dal

Bydd cartrefi'n cael eu heithrio o'r cap ar fudd-dal os ydych chi, eich partner neu blentyn neu berson ifanc cymwys, yn gymwys i gael TAP.

Help gyda chostau trafnidiaeth

Motability

Os dyfarnir cyfradd uwch elfen symudedd TAP i chi, yna efallai y gallwch wneud cais ar gyfer y cynllun Motability. Drwy'r cynllun hwn, gallwch ddefnyddio eich elfen symudedd i brydlesu neu brynu car, cadair olwyn neu sgwter. Os nad ydych yn gallu gyrru a bod angen help arnoch i dalu am wersi neu help i gael blaendal am gar drwy'r cynllun, yna efallai y byddwch yn gymwys i dderbyn grant. I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â Motability – ewch i dudalen 27.

Cynllun y Bathodyn Glas heb asesiad pellach

Mae cynllun y Bathodyn Glas yn caniatáu i bobl sydd ag anableddau cerdded difrifol barcio mewn ardaloedd parcio cyfyngedig. Er enghraifft, os oes bathodyn gennych, gallwch barcio am ddim ac am unrhyw gyfnod o amser ar y stryd lle ceir meter parcio ac mewn ardaloedd talu ac arddangos ar y stryd.

Yn Lloegr a Gogledd Iwerddon, os dyfarnwyd wyth pwynt neu fwy i chi yng weithgaredd 'symudedd' TAP, gallwch gael Bathodyn Glas. Yng Nghymru a'r Alban, gallwch gael y bathodyn os dyfarnwyd wyth pwynt neu fwy i chi yn y gweithgaredd 'symudedd', neu 12 pwynt yn y gweithgaredd 'cynllunio a dilyn teithiau'.

Eich cyngor lleol neu ymddiriedolaeth sy'n gyfrifol am y cynllun, a dylech gysylltu â nhw i gael gwybodaeth bellach.

Fel arall yng Ngogledd Iwerddon, cysylltwch ag Uned y Bathodyn Glas ar **0300 200 7818**. Bydd ganddynt fanylion hefyd am yr amgylchiadau eraill pan fyddwch, yn amodol ar asesiad, yn gymwys i gael bathodyn glas.

Treth cerbyd

Efallai na fydd yn rhaid i chi dalu treth cerbyd os ydych yn derbyn cyfradd uwch elfen symudedd TAP. Gallech dderbyn gostyngiad o 50% ar eich trethcerbyd hefyd, os ydych yn derbyn cyfradd safonol elfen symudedd TAP.

Consesiynau trafnidiaeth gyhoeddus

Yn Lloegr, os byddwch yn sgorio wyth pwynt neu fwy o dan y gweithgaredd 'symudedd' neu o dan y gweithgaredd 'cyfathrebu ar lafar', efallai y byddwch yn gymwys i gael consesiynau trafnidiaeth. Cysylltwch â'ch awdurdod lleol i gael rhagor o wybodaeth.

Yng Nghymru, os byddwch yn sgorio wyth pwynt neu fwy o dan y gweithgaredd 'symudedd' neu o dan y gweithgaredd 'cyfathrebu ar lafar', neu 12 pwynt o dan y gweithgaredd 'Cynllunio a dilyn taith', byddwch yn gymwys i gael consesiynau trafnidiaeth.

Ewch i gov.wales/buses-concessionary-travel i gael mwy o wybodaeth ar y Consesiwn Cenedlaethol Cymreig.

Yn yr Alban, os ydych yn derbyn elfen byw bob dydd neu symudedd y Taliad Annibyniaeth Personol, byddwch yn gymwys ar gyfer Cynllun Teithio Rhatach Cenedlaethol yr Alban. Ewch i transport.gov.scot/concessionary-travel/60plus-and-disabled i gael manylion y cynllun. Os byddwch yn gwneud cais am TAP ac nad ydych ynllwyddiannus, efallai y byddwch yn dal i fod yn gymwys i gael teithio'n rhatach drwy feini prawf cymhwyso eraill, gan gynnwys anabledau penodol, neu os ydych wedi'ch anghymhwyso rhag gyrru ar sail feddygol. Cysylltwch â Transport Scotland ar [0141 272 7100](tel:01412727100) neu gyda'ch cyngor lleol i gael rhagor o wybodaeth.

Yng Ngogledd Iwerddon, os ydych yn derbyn elfen symudedd y Taliad Annibyniaeth Personol, efallai y byddwch yn gymwys ar gyfer yr Half Fare SmartPass. Os byddwch yngwneud cais am TAP ac nad ydych yn llwyddiannus, efallai y byddwch yn dal i fod yn gymwys i gael teithio'n rhatach drwy feini prawf cymhwyso eraill, gan gynnwys anabledau penodol, neu os ydych wedi'ch anghymhwyso rhag gyrru ar sail feddygol. Cysylltwch â Translink ar [028 9066 6630](tel:02890666630) am fwy o wybodaeth.

Hawl cydymaith (Yr Alban yn unig)

Os ydych yn derbyn cyfradd safonol neu uwch elfen byw bob dydd y Taliad Annibyniaeth Personol, byddwch yn gymwys i gael Cerdyn Cydymaith, sy'n caniatáu igydymaith deithio gyda chi am ddim. Dylech gysylltu â'ch awdurdod lleol neu fynd i wefan Transport Scotland i gael rhagor o wybodaeth: transport.gov.scot/concessionary-travel/60plus-and-disabled

Preswyliaeth a phresenoldeb

I fodloni'r profion preswyliaeth a phresenoldeb, mae'n rhaid i chi gwrdd â'r ddau amod canlynol:

- mae'n rhaid eich bod wedi bod yn bresennol ym Mhrydain Fawr (sydd i'rdiben hwn yn cynnwys Gogledd Iwerddon hefyd) am 104 o wythnosau allan o'r 156 o wythnosau cyn gwneud cais (dwy allan o'r tair blynedd diwethaf)
- mae'n rhaid mai Prydain Fawr yw eich preswylfan arferol

Mae 'presennol' yn golygu bod yn bresennol yn gorfforol ym Mhrydain Fawr. Efallai yr ystyrir rhai pobl fel bod ym Mhrydain Fawr tra eu bod dramor. Nid yw'r prawf presenoldeb blaenorol yn berthnasol i bobl a gydnabyddir fel ffoaduriaid a'u teuluoedd. Gall y rheolau yn y maes hwn fod yn gymhleth. Gallwch gael arweiniad a help arbenigol gan eich canolfan Cyngor ar Bopeth leol: citizensadvice.org.uk/about-us/contact-us/contact-us/contact-us/. Gall y Ganolfan AIRE roi cyngor ynghylch hawliau unigol yn Ewrop a gellir cysylltu â nhw ar **020 7831 4276** neu drwy e-bostio info@airecentre.org.

Y prawf preswylfan arferol yw prawf i weld a ydych fel arfer yn byw yn y Deyrnas Unedig, Ynysoedd y Sianel, Gweriniaeth Iwerddon neu Ynys Manaw. Defnyddir y prawf os ydych wedi bod yn byw dramor. Ni cheir diffiniad cyfreithiol manwl o 'breswylfan arferol'. Ffactorau perthnasol yw lle rydych fel arfer yn byw, lle rydych yn disgwyl byw yn y dyfodol, eich rhesymau dros ddod i'r wlad hon, hyd y cyfnod a dreuliwyd dramor cyn i chi ddod yma, ac unrhyw gysylltiadau sydd gennych o hyd â'r wlad lle rydych wedi dod ohoni.

Help ychwanegol

Mae ein gwefan yn cynnwys cyfoeth o wybodaeth ddefnyddiol am y materion ariannol acymarferol sy'n gysylltiedig â gofalu. Ewch i carersuk.org a chliciwch ar "Help and Advice" yn y brif ddewislen.

Gallwch ddod o hyd i fanylion eich sefydliad gofalwyr lleol ar ein gwefan yn carersuk.org/local-support

Am wybodaeth a chyingor, cysylltwch â Llinell Gymorth Carers UK ar **0808 808 7777** (dydd Llun i ddydd Gwener, 9am-6pm) neu e-bostiwch advice@carersuk.org

Os ydych yn byw yng Ngogledd Iwerddon, gallwch gysylltu â Carers NI am gyngor ar **0289043 9843** (Dydd Llun i ddydd Iau 10am - 4pm) neu e-bostio advice@carersni.org

Sefydliadau eraill

Y Gwasanaeth Apeliadau, Gogledd Iwerddon

Y gwasanaeth sy'n ymdrin â'r broses apelio ar gyfer penderfyniadau budd-daliadau yng Ngogledd Iwerddon.

g: nidirect.gov.uk/contacts/contacts-az/appeals-service-benefits-appeals

Cyngor ar Bopeth neu Advice NI (ar gyfer Gogledd Iwerddon) Yn rhoi cyngor annibynnol, cyfrinachol, diduedd am ddim.

g: www.citizensadvice.org.uk neu adviceni.net/ (Gogledd Iwerddon yn unig)

Money Talk Team (Yr Alban yn unig)

Yn rhoi cyngor cyfrinachol, diduedd i helpu i fwyhau incwm, delio gyda dyledion a lleihau biliau.

g: moneytalkteam.org.uk **ff:** 0800 085 7145

Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM

I chwilio am lys neu dribiwnlys yng Nghymru neu Loegr neu dribiwnlys yn yr Alban

g: www.find-court-tribunal.service.gov.uk

Archwiliwr Achos Annibynnol

Gwasanaeth adolygu cwynion am ddim i bobl sydd wedi cwyno am eu cais am fudd-daliadau (ar draws y DU).

g: www.ind-case-exam.org.uk

ff: 0800 414 8529 (ffôn testun: 18001 0800 414 8529)

Motability

Mae Motability yn helpu pobl i symud o gwmpas drwy gyfnewid eu lwfans symudedd i brydlesu car, sgwter neu gadair olwyn fodur (Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon)

g: www.motability.co.uk **ff:** 0300 456 4566

Ombwdsmon Gogledd Iwerddon

Swyddog y llywodraeth sy'n gyfrifol am ddelio â chwynion am wasanaethau'r wladwriaeth. (Gogledd Iwerddon)

g: nipso.org.uk **ff:** 0800 34 34 24 (ffôn testun: 028 9089 7789)

Ombwdsman Seneddol a Gwasanaeth Iechyd

Swyddog y llywodraeth sy'n gyfrifol am ddelio â chwynion am wasanaethau'r wladwriaeth (Cymru, Lloegr a'r Alban)

g: www.ombudsman.org.uk **ff:** 0345 015 4033

Lwfans Gweini

Cymru, Lloegr a'r Alban

ff: 0800 731 0122 (ffôn testun: 0800 731 0317)

Uned Lwfans Gofalwr

Cymru, Lloegr a'r Alban

ff: 0800 731 0297 (ffôn testun: 0800 731 0317)

Yn yr Alban: ar gyfer Atodiad Lwfans Gofalwr/Grant Gofalwr Ifanc, Nawdd Cymdeithasol yr Alban

ff: 0800 182 2222 (ffôn testun: 0800 731 0317)

Lwfans Byw i'r Anabl Cymru, Lloegr a'r Alban

Os cawsoch eich geni ar neu cyn Ebrill 81948:

ff: 0800 731 0122 (ffôn testun:0800 731 0317)

Os cawsoch eich geni ar ôl Ebrill 8 1948:

ff: 0800 121 4600 (ffôn testun: 0800 121 4523)

Ar gyfer Lwfans Ceisio Gwaith, Cymhorthdal Incwm a Lwfans Cyflogaeth aChymorth:

Jobcentre Plus (Cymru, Lloegr a'r Alban)

Hawliadau newydd **ff:** 0800 055 6688 (ffôn testun: 0800 023 4888)

Hawliadau presennol **ff:** 0800 169 0310 (ffôn testun: 0800 169 0314)

Swyddfa Nawdd Cymdeithasol neu Swyddi a Budd-daliadau
(Gogledd Iwerddon)

Manylion y swyddfeydd lleol: **g:** nidirect.gov.uk/contacts/jobs-benefits-offices

Mae'r cyfeiriad yn y llyfr ffôn o dan Government – Social Security Agency)

Hawliadau ESA newydd **ff:** 0800 085 6318 (ffôn testun: 0800 328 3419)

Hawliadau presennol **ff:** 0800 587 1377 (ffôn testun: 0800 328 3419)

Credyd Pensiwn a Gwasanaeth Pensiwn (Cymru, Lloegr a'r Alban)

Llinell hawlio Credyd Pensiwn: **ff:** 0800 99 1234 (ffôn testun 0800 169

0133)Llinell Hawlio Pensiwn y Wladwriaeth: **ff:** 0800 731 7898 (ffôn testun:
0800 731 7339) (Gogledd Iwerddon)

Credyd Pensiwn: **ff:** 0808 100 6165 (ffôn testun 0808 100 2198)

Llinell Hawlio Pensiwn y Wladwriaeth **ff:** 0808 100 2658

(ffôn testun: 0800 100 2198)

Taliad Annibyniaeth Personol

(Cymru, Lloegr a'r Alban)

Hawliadau newydd: ff: 0800 917 2222 (ffôn testun: 0800 917 7777)

Llinell ymholiadau ff: 0800 121 4433 (ffôn testun: 0800

121 4493) Gogledd Iwerddon

Hawliadau newydd ff: 0800 012 1573 (ffôn testun 0800 587 0937)

Llinell ymholiadau ff: 0800 587 0932 (ffôn testun 0800 587 0937)

Credydau Treth

(Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon)

ff: 0345 300 3900 (ffôn testun: 18001 0345 300 3909)

Llinell Gymorth Credyd Cynhwysol

(Cymru, Lloegr a'r Alban)

ff: 0800 328 5644 (ffôn testun: 0800 328

1344)(Gogledd Iwerddon)

ff: 0800 012 1331 (ffôn testun: 0800 012 1441)

Nod y daflen wybodaeth hon yw rhoi gwybodaeth a chyngor defnyddiol. Nid yw'nddatganiad awdurdodol o'r gyfraith. Rydym yn gweithio i sicrhau bod ein taflenni gwybodaeth yn gywir ac yn gyfredol, ond mae gwybodaeth am fudd-daliadau a gofal yn y gymuned yn agored i newid dros amser. Byddem yn argymhell cysylltu â Llinell Gymorth Carers UK neu fynd i'n gwefan i gael yr wybodaeth ddiweddaraf.

Anfonwch eich adborth am y daflen ffeithiau hon atom drwy e-bost gyda'ch sylwadau i info@carersuk.org. Diweddarwyd y daflen ffeithiau hon ym mis Ebrill 2022. Dyddiad adolygu nesaf - Ebrill 2023.

Llinell gymorth Carers UK

I gael gwybodaeth a chyngor arbenigol am ofalu.



0808 808 7777

(ar agor dydd Llun i ddydd
Gwener, 10am-4pm)



advice@carersuk.org

Carers UK

20 Great Dover Street
Llundain SE1 4LX

020 7378 4999
info@carersuk.org

Gofalwyr Cymru

029 2081 1370
info@carerswales.org

Carers Scotland

0141 445 3070
info@carerscotland.org

Carers Northern Ireland

028 9043 9843
info@carersni.org

Sut bynnag mae gofalu'n effeithio arnoch, rydym yma i chi.

Bydd gofalu'n effeithio ar bob un ohonom ar ryw adeg yn ein bywydau.

Gyda'ch help, gallwn gefnogi 6,000o bobl sy'n dechrau gofalu am rywun bob dydd.

Ni yw'r unig elusen aelodaeth genedlaethol yn y DU i ofalwyr; ymunwch â ni am ddim yn carersuk.org/join.

Rydym yn rhwydwaith cefnogi yn ogystal â mudiad dros newid.

Ewch i'n gwefan i ymuno â ni, i'n helpu neu i gael mynediad at fwy o adnoddau: